


Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2020-21



Tiwtor :

Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydd.ac.uk

Darlith 6

Dydd Iau 5^{ed} o Dachwedd 2020



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Nod y sesiwn:



- Adolygu prif bwyntiau iaith y ddarlith ddiwethaf a rhoi adborth ar y dasg gyfeiriol.
- Edrych ar berthynas yr **arddodiaid â'r berfenwau.**

Cofiwch....

Pwrpas arddodiad yw:

Dangos y **berthynas rhwng gair ac enw / rhagenw.**

Yn aml, mae'n cyfeirio at leoliad rhywbeth.



Yr Arddodiaid Cyffredin

Cofiwch:
Mae angen
treiglo'n
feddal
ar ôl yr
arddodiaid.

am

ar

at

gan

dros

drwy

wrth

dan

heb

i

o

hyd

Camleoli'r arddodiaid


Ni ddylid gorffen brawddeg gydag arddodiad.

Serch hynny, gellir gorffen brawddeg gydag arddodiad os yw wedi cael ei redeg.


e.e. Ble rwyd ti'n dod o?



O ble rwyd ti'n dod?



Defnyddiwch y 'sgwrs'...
Teipiwch 5 cwestiwn addas i'w ofyn yn y dosbarth.



Lleoliad Yr arddodiaid

Yn Gymraeg, gallwn orffen brawddeg gydag arddodiaid, **ond** rhaid i ni 'redeg' yr arddodiad i gyfeirio nôl at y peth/person yn gywir. Dydyn ni ddim yn gallu gorffen brawddeg gydag arddodiad syml (am, ar, at, dan, dros, drwy, wrth, gan, hyd, heb, i, o).

Felly gellir cyfieithu ...

The chair I was sitting on neu The chair (upon) on which I was sitting

... i'r Gymraeg: **y gadair roeddwn i'n eistedd arni.**

Enghraifft o'r llythyr:

gobeithio y bydda i'n gwybod beth mae'r tiwtoriaid yn sôn **amdan** ☹

gobeithio y bydda i'n gwybod **am** beth mae'r tiwtoriaid yn sôn ☺

gobeithio y bydda i'n gwybod beth mae'r tiwtoriaid yn sôn **amdano** ☺

Mae
gwybod
cenedl
enw yn
bwysig
felly!

Rhedeg arddodiaid

Mae'r arddodiad cyffredin yn ogystal â'r arddodiaid **rhwng**, **rhag** ac **yn** yn cael eu rhedeg o flaen rhagenw.

Os yw'r arddodiaid yn rhedadwy, gallant roi gwybodaeth i ni am y person/peth y maent yn cyfeirio atynt.

e.e

am + fi = amdanaf i

gan + fi = gennyf fi

Adborth: Tasg Gyfeiriol



TASG

Arddodiaid



- Tasg 1**
Rhewch ffurf gywir yr arddodiad yn y bylchau.
1. Clyweis i am _____ nhw'n ennill y gystadieueth.
 2. Gadawodd hi'r tŷ heb _____ i.
 3. Roedd can punt gan _____ hi yn ei bag.
 4. Beth rydych chi'n feddwl _____ fe?
 5. Ymasodd y dyn ar _____ hi.
 6. Ewch i'r neuadd at _____ nhw.
 7. Roedd hi'n hen bryd i _____ fe ddechrau gerando ar ei fam.
 8. Roeddwn i'n teimlo'n flin dros _____ nhw.
 9. Bydd y llyfrau ar y ddesg a bydd y bagiau ar _____ hi hefyd.
 10. Dywedodd hi'r hanes wrth _____ i ddoe.
 11. Gwelais i ddeg o _____ nhw'n crwydro o gwmpas y parc.

- Tasg 2**
Treiglchw lle ba angen yn y brawddegau isod.
1. Ysgrifennodd hi baragraff arall ar diwedd y llythyr.
 2. Pris y tocmaw fydd tua pum punt.
 3. Arhosodd hi yn y gweryll am mis, rwy'n meddwl.
 4. Siarodd hi dros cyfreithiwr y teulu.
 5. Bydd e'n gadael ei swydd cyn ddiwedd y flwyddyn.
 6. Byddwn ni'n ymweld â Castell Henllys wythnos nes.
 7. Mae hi'n dod o Caerdydd.
 8. Roedd ganddi hi pigyn clust.
 9. Ydyn nhw'n mynd i beicio bob wythnos?
 10. Rhedodd y chwaraewyr yn syth i canol y cae.
 11. Bydd hi'n mynd â plant yr ysgol i Lundain yn yr haf.

- Tasg 3**
Cymwch y brawddegau hyn. Mae un gwall yn mhob brawddeg.
1. Mae hi wedi bod yn dysgu Llydaweg ers mis Ionawr.
 2. Roedd hi wedi dewed byr at hi.
 3. Ysgrifennais i lythyr byr at hi.
 4. Dywedais i'r hanes i fy mrawd.
 5. Mae brech yr ieir ganddo fo.
 6. Wyt ti'n gwybod ble mae e'n dod o?
 7. Mae'r llyfrau mewn canolfan adnoddau'r ysgol.
 8. Roedd hi'n byw yn Caernarfon ers blynyddoedd.
 9. Roedd digon a bwyd a diod yn y parti.
 10. Pan welch chi'ch chwawer, cofiwch fi andani hi.
 11. Roeddwn i wedi ymweld i cleitron yn yr ystyby.
 12. Peidiwch â chwethin ar ben y plant drwg.

Tasg 1

Rhowch ffurf gywir yr arddodiad yn y bylchau.

1. Clywais i amdanyn nhw'n ennill y gystadleuaeth.
2. Gadawodd hi'r tŷ hebddo i.
3. Roedd can punt ganddi hi yn ei bag.
4. Beth rydych chi'n feddwl ohono fe?
5. Ymosododd y dyn arni hi .
6. Ewch i'r neuadd atyn nhw.
7. Roedd hi'n hen bryd iddo fe ddechrau gwranddo ar ei fam.
8. Roeddwn i'n teimlo'n flin drostyn nhw.
9. Bydd y llyfrau ar y ddesg a bydd y bagiau arni hi hefyd.
10. Dywedodd hi'r hanes wrtho i ddoe.
11. Gwelais i ddeg ohonyn nhw'n crwydro o gwmpas y parc.

Tasg 2

Treiglwch lle bo angen yn y brawddegau isod.

1. Ysgrifennodd hi baragraff aral **ar diwedd** y llythyr.
2. Pris y tocynnau fydd **tua pum** punt.
3. Arhosodd hi yn y gwersyll **am mis** rwy'n meddwl.
4. Siaradodd hi **dros cyfreithiwr** y teulu.
5. Bydd e'n gadael ei swydd **cyn ddiwedd** y flwyddyn.
6. Byddwn ni'n ymweld **â Castell Henllys** wythnos nesa.
7. Mae hi'n dod **o Caerdydd**.
8. Roedd ganddi hi **pigyn clust**.
9. Ydyn nhw'n mynd **i beicio** bob wythnos?
10. Rhedodd y chwaraewyr yn syth **i canol** y cae.
11. Bydd hi'n mynd **â plant** yr ysgol i Lundain yn yr haf.



1. ar **ddi**wedd
2. tua **ph**um
3. am **f**is
4. dros **g**yfreithiwr
5. cyn diwedd
6. â **C**astell
7. o **G**aerdydd
8. i **b**igyn clust
9. i **f**eicio
10. i **g**anol
11. â **ph**lant

Tasg 3

Cywirwch y brawddegau hyn. Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Mae hi wedi bod yn dysgu Llydaweg **ers** mis Ionawr.
2. Roedd hi wedi dweud y stori **i ti**.
3. Ysgrifennais i lythyr byr **at hi**.
4. Dywedais i'r hanes **i** fy mrawd.
5. Mae brech yr ieir **ganddo fo**.
6. Wyt ti'n gwybod ble mae e'n dod **o?**
7. Mae'r llyfrau **mewn** canolfan adnoddau'r ysgol.
8. Roedd hi'n byw **yn** Cernarfon ers blynyddoedd.
9. Roedd digon **o** bwyd a diod yn y parti.
10. Pan welwch chi'ch chwaer, cofiwch f **amdani hi**.
11. Roeddwn i wedi ymweld **y** cleifion yn yr ysbyty.
12. Peidiwch â chwerthin **ar** ben y plant drwg.



1. er mis
2. wrthot ti
3. ati hi
4. dweud..wrth
5. arno
6. o ble mae e'n dod
7. yng nghanolfan
8. yng Nghaernarfon
9. o fwyd
10. cofio (at)...ati hi
11. ymweld â'r
12. chwerthin am ben

Cofiwch hefyd y
gwhaniaeth
rhwng ...

yn a mewn

yn = in

mewn = in a



yn

neu

mewn

?? ??





Ymarfer yn / mewn


1. Bydda i'n barod ____ pum munud.
2. Roedd y teledu ____ ei ystafell wely e.
3. Maen nhw'n byw ____ Hwlfordd nawr.
4. Roedden nhw'n byw ____ dinas fawr yn yr Eidal.
5. Does dim llawer o athrawon ____ ei deulu e.
6. Doedd dim diddordeb gyda nhw ____ ieithoedd.
7. Aethon nhw ddim i'r dref ____ car.
8. Doedd dim llaeth ____ yr oergell.

Atebion

Ymarfer yn / mewn



1. Bydda i'n barod **mewn** pum munud.
2. Roedd y teledu **yn** ei ystafell wely e.
3. Maen nhw'n byw **yn** Hwlfordd nawr.
4. Roedden nhw'n byw **mewn** dinas fawr yn yr Eidal.
5. Does dim llawer o athrawon **yn** ei deulu e.
6. Doedd dim diddordeb gyda nhw **mewn** ieithoedd.
7. Aethon nhw ddim i'r dref **mewn** car.
8. Doedd dim llaeth **yn** yr oergell.



Perthynas yr arddodiaid â'r berfenwau

Gwall cyffredin yw defnyddio'r
arddodiad anghywir gyda berfenw.

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod pa arddodiad sydd yn mynd gyda pha ferf.

Pa arddodiaid gyda pha ferfenwau?

edrych

gofyn

sôn

talw

am

edrych am...

gofyn am...

sôn am...

talw am...

Pa arddodiaid gyda pha ferfenwau?

edrych

gweiddi

gwrando

sylwi

ar

edrych ar...

gweiddi ar...

gwrando ar...

sylwi ar...

Pa arddodiaid gyda pha ferfenwau?

ysgrifennu

mynd

anfon

anelu

at

ysgrifennu at..

mynd at...

anfon at...

anelu at...



Pa arddodiaid gyda pha ferfenwau?

cwrdd

cyffwrdd

dod

mynd

peidio

siarad

â/ag

cwrdd â...

cyffwrdd â...

dod â...

mynd â...

peidio â...

siarad â...



â/ag	at	ar	am
cwrdd â	ysgrifennu at	blino ar	edrych am
cyffwrdd â	anfon at	gweddïo ar	gofyn am
dod â	mynd at	edrych ar	sôn am
mynd â	anelu at	gweiddi ar	talw am
peidio â	cyfeirio at	gwenu ar	gorffen am
sgwrsio â	cerdded at	gwrando ar	mynd am
siarad â	symud at	sylwi ar	siopa am

Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl berfenwau


siarad â gwrando ar meddwl am
dweud wrth ysgrifennu at aros am


Mae angen dewis yr arddodiad cywir.

Yn anffodus does dim patrwm ar gyfer dewis!

Mae'n fater o gofio!

Llyfr: Pa Arddodiad?
gan D. Geraint Lewis





maddau i

mynd at

(gyda pherson)

mynd i

(wrth sôn am leoliad)

peidio â

rhyfeddu at

siarad â / ag

(gyda pherson)

siarad am

(wrth sôn am bwnc)

sôn wrth

(gyda pherson)

sôn am

(wrth drafod pwnc)

ysgrifennu at

sylwi ar


anelu at
anghofio am
ateb dros
clywed am
clywed gan

(wrth sôn am bwnc neu berson neu unrhyw destun trafod)
(wrth esbonio eich bod wedi cael newyddion neu hanes
wrth berson arall)

cyfarfod â
cyffwrdd â
dweud wrth
ffarwelio â
gwahardd rhag
gweiddi ar
gwrando ar
llwyddo i

Pa arddodiad sy'n mynd gyda pha ferfenw?

- 1.to tell.
- 2.to remember to a person
- 3.to send to (a person)
- 4.to congratulate for
- 5.to talk about
- 6.to go to (a place)
- 7.to shout at
- 8.to write to (a person)
- 9.to think about
- 10.to worry about
- 11.to look at
- 12.to look / search for
- 13.to listen to
- 14.to come from



Pa arddodiad sy'n mynd gyda pha ferf?

1. to tell.
2. to remember to a person
3. to send to (a person)
4. to congratulate for
5. to talk about
6. to go to (a place)
7. to shout at
8. to write to (a person)
9. to think about
10. to worry about
11. to look at
12. to look / search for
13. to listen to
14. to come from

1. Dweud wrth
2. Cofio at
3. Anfon at
4. Llongyfarch am
5. Siarad am
6. Mynd i
7. Gweiddi ar
8. Ysgrifennu at
9. Meddwl am
10. Poeni am
11. Edrych ar
12. Chwilio am
13. Gwranddo ar
14. Dod o

Gwallau Cyffredin

ANGHYWIR ✕	CYWIR ✓
Tu allan o'r dosbarth	Y tu allan i'r dosbarth
Peidiwch feddwl	Peidiwch â meddwl
Ymgeisio at le ar y cwrs	Ymgeisio am le ar y cwrs
Pwysleisio ar	Pwysleisio
Ynghyd a	Ynghyd â
Ymuno ar y cwrs	Ymuno â'r
Rhyfeddu ar	Rhyfeddu at
Y pwysigrwydd o ddefnyddio	pwysigrwydd defnyddio
Cyfarfod pobl	Cyfarfod/ Cwrdd â phobl
Yn llawn o fyfyrwyr	Yn llawn myfyrwyr
Pob agwedd o	Pob agwedd ar



ANGHYWIR ✕	CYWIR ✓
Ambell o dripiâu	Ambell drip
Arwain i	Arwain at
Effeithio pobl	Effeithio ar bobl
Penderfynu i fentro	Penderfynu mentro
Banc Brenhinol o'r Alban	Banc Brenhinol yr Alban
Hysbysu o	Hysbysu am
O dan anfantais	Dan anfantais
Cwyno i	Cwyno wrth
Blas o	Blas ar
Gwranddo i	Gwranddo ar



Creu braddegau cywir.



<https://wordwall.net/resource/6368590>

Edrychwch ar y darn isod a nodwch y camgymeriadau sy'n ymwneud â defnyddio arddodiaid.

Ysgrifennais i Lois Jones eto ddoe i ofyn iddi ddod i siarad ar destun ymfflamychol ond pwysig, sef 'Hawliau cyfartal i ferched' yn ein cyfarfod nesaf. Dw i wedi bod yn gweiddi at Lois i fynychu ein cyfarfodydd ers sbel a dw i wedi dweud iddi ceith hi dâl am ei hamser. Dywedais ati i anelu am ddeng munud o gyflwyniad ac yna i fod yn barod am gwestiynau. Byddwn yn ffarwelio gydag ambell aelod hefyd gan fod Huw Rhys yn ymfudo at Ganada. Dw i wedi gofyn wrth y tîm i roi cyfraniad ato. Dw i am ysgrifennu at gwmni dylunio lleol nawr i gael ein siaradwr nesaf.

ATEBION

Ysgrifennais [redacted] Lois Jones eto ddoe i ofyn iddi ddod i siarad [redacted] destun ymfflamychol ond pwysig, sef 'Hawliau cyfartal i ferched' yn ein cyfarfod nesaf. Dw i wedi bod yn erfyn [redacted] Lois i fynychu ein cyfarfod ers sbel a dw i wedi dweud [redacted] ceith hi dâl am ei hamser. Dywedais [redacted] i anelu [redacted] ddeng munud o gyflwyniad ac yna i fod yn barod am gwestiynau. Byddwn yn ffarwelio gydag ambell aelod hefyd gan fod Huw Rhys yn ymfudo i Ganada. Dw i wedi gofyn i'r tîm i roi cyfraniaid [redacted] Dw i am ysgrifennu [redacted] mni dylunio lleol nawr i gael ein siaradwr nesaf.

ATEBION

Ysgrifennais **at** Lois Jones eto ddoe i ofyn iddi ddod i siarad **am** destun ymfflamychol ond pwysig, sef 'Hawliau cyfartal i ferched' yn ein cyfarfod nesaf. Dw i wedi bod yn erfyn **ar** Lois i fynychu ein cyfarfodydd ers sbel a dw i wedi dweud **wrthi** ceith hi dâl am ei hamser. Dywedais **wrthi** i anelu **at** ddeng munud o gyflwyniad ac yna i fod yn barod am gwestiynau. Byddwn yn ffarwelio gydag ambell aelod hefyd gan fod Huw Rhys yn ymfudo **i** Ganada. Dw i wedi gofyn **i'r** tîm i roi cyfraniad **iddo**.

Dw i am ysgrifennu **i** gwmni dylunio lleol nawr i gael ein siaradwr nesaf.